**MEMORANDWM ODDI WRTH Y GWEINIDOG DROS YR AMGYLCHEDD, CYNALIADWYEDD A THAI**

**Gorchymyn Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Amgylchedd) 2009**

# Cynnig ar gyfer Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol gan y Llywodraeth ynghylch yr Amgylchedd

## Cyflwyniad

1. Paratowyd y Memorandwm hwn a gosodwyd ef gerbron yn unol â Rheol Sefydlog (RhS) 22.14. Mae'n gosod y cefndir i'r darpariaethau yn y cynnig amgaeedig gan y llywodraeth am Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol a fyddai'n rhoi cymhwysedd deddfwriaethol ychwanegol i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Gosodir ef gerbron yn unol â RhS 22.13 ac y mae'n esbonio cwmpas y pwerau a geisir.

2. Mae'r memorandwm yn gosod cefndir a chyd-destun Gorchymyn Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Amgylchedd) 2009.

3. Gosodir cyd-destun cyfansoddiadol y cais hwn yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006). Mae adran 95 o Ddeddf 2006 yn rhoi'r pŵer i'w Mawrhydi, drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor, i roi'r cymhwysedd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ddeddfu drwy Fesur Cynulliad ar Faterion penodedig. Caniateir ychwanegu'r Materion hyn at Feysydd o fewn Atodlen 5 i Ddeddf 2006. Caiff Mesurau Cynulliad wneud unrhyw ddarpariaeth y gallai Deddf Seneddol ei gwneud (ac o'r herwydd gall addasu deddfwriaeth bresennol a gwneud darpariaethau newydd), o ran Materion, yn ddarostyngedig i'r terfynau y darperir ar eu cyfer yn Rhan 3 o Ddeddf 2006. Yn y Memorandwm hwn cyfeirir at Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor o dan adran 95 o Ddeddf 2006 fel Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol (GCD).

4. Caniateir mewnosod Materion yn y Meysydd a gynhwysir yn Atodlen 5 i Ddeddf 2006, naill ai drwy Ddeddf Seneddol neu drwy Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol, pan fo'r olaf wedi ei gymeradwyo gan y Cynulliad a chan ddau Dŷ'r Senedd. Mae'r ail lwybr yn galluogi'r Cynulliad i gychwyn y broses ar gyfer trosglwyddo cymhwysedd o'r fath, drwy gyfrwng GCD.

5. Byddai'r GCD a gynigir yn rhoi cymhwysedd deddfwriaethol ychwanegol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym Maes yr amgylchedd (Maes 6 yn

Atodlen 5 i Ddeddf 2006). Atodir copi o Atodlen 5 yn Atodiad A, sy'n dangos y cymhwysedd deddfwriaethol a gaffaelwyd gan y Cynulliad hyd yma.

## Y cefndir

*Y Cyd-destun Strategol*

6. Bydd yr GCD arfaethedig hwn yn darparu cymhwysedd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (‘y Cynulliad’) mewn perthynas â gwastraff, llygredd a niwsansau. Gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru, fel y'i nodir yn y Rhaglen Llywodraethu *Cymru'n Un* yw amgylchedd gwirioneddol gynaliadwy, ac y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dilyn polisïau ac yn gweithredu mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys ceisio gwella'i chymhwysedd deddfwriaethol, i wireddu'r weledigaeth honno. Mae'r Amgylchedd yn faes polisi a ddatganolwyd ers cyfnod hir, ac yn un o'r Meysydd a restrwyd yn Neddf Llywodraeth Cymru 1998, a oedd yn trosglwyddo swyddogaethau Gweinidogol oddi wrth Ysgrifennydd Gwladol Cymru i'r Cynulliad pan sefydlwyd y Cynulliad gyntaf. Yn ychwanegol, mae swyddogaethau gweithredol pellach wedi eu datganoli i Weinidogion Cymru mewn Deddfau Seneddol diweddarach. Mae'r GCD arfaethedig yn ceisio cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad mewn Meysydd lle mae gan Weinidogion Cymru gymhwysedd gweithredol eisoes. Byddai hyn yn caniatáu i'r Cynulliad ystyried deddfwriaeth yn y maes hwn ac yn galluogi Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynnig deddfwriaeth a fyddai'n gymorth i gyflawni'r weledigaeth uchod. Yr GCD hwn oedd un o'r Gorchmynion cyntaf oll a ddygwyd gerbron gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ac y maen rhan annatod o'i rhaglen ddeddfwriaethol.

7. Mae dull cyffredinol Llywodraeth Cynulliad Cymru o ymdrin â gwastraff, llygredd ac ansawdd yr amgylchedd lleol wedi ei bennu mewn nifer o ddogfennau polisi strategol. Y ddogfen drosfwaol allweddol yw Cynllun Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cynulliad Cymru, sy'n arbennig o berthnasol i gwmpas y pwerau sydd yn y Gorchymyn. Yn adran 79 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 gosodir dyletswydd ar Weinidogion Cymru i baratoi cynllun a fydd yn nodi'r modd y maent, wrth arfer eu swyddogaethau, yn bwriadu hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Ym mis Tachwedd 2008 cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei Chynllun Datblygu Cynaliadwy diwygiedig ar gyfer ymgynghori, o dan y teitl ‘*Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned’* a oedd yn nodi gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru o Gymru gynaliadwy ac yn gwneud datblygu cynaliadwy yn egwyddor drefniadol ganolog ar gyfer datblygu a gweithredu polisïau. Er mwyn cyflawni hyn o fewn un cenhedlaeth, mae'r cynllun diwygiedig yn nodi y bydd angen lleihad o ddwy ran o dair yng nghyfanswm yr adnoddau a ddefnyddiwn ar hyn o bryd i gynnal ein dulliau

o fyw. Mae hyn yn cynnwys gostyngiad radical o 80% - 90% yn ein defnydd o ynni sy'n seiliedig ar garbon a lleihad cyffelyb yn yr allyriadau nwyon tŷ gwydr; dull sylfaenol wahanol o reoli gwastraff, a symud i gyfeiriad cenedl gwastraff sero; ac ad-drefnu ein dull o fyw ac o weithio er mwyn teithio llai mewn ceir. Bydd yr GCD yn rhoi pwerau deddfwriaethol i'r Cynulliad a fydd yn galluogi Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynnig deddfwriaeth a fydd yn offeryn hollbwysig ar gyfer cyflawni'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy.

8. Yn y Cynllun Datblygu Cynaliadwy amlinellir dull cyffredinol Llywodraeth Cynulliad Cymru o fynd ati, ar draws ei hamrediad llawn o gyfrifoldebau, i wireddu'r weledigaeth o Gymru gynaliadwy. Mae Strategaeth Amgylcheddol Cymru (2006) yn adeiladau ar ddyheadau'r Cynllun Datblygu Cynaliadwy drwy ddarparu manylion pellach am strategaeth hirdymor Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer amgylchedd Cymru. Y Strategaeth Amgylcheddol sy'n gosod y cyfeiriad strategol am yr 20 mlynedd nesaf ac yn sefydlu'r fframwaith ar gyfer creu amgylchedd glân, bioamrywiol ac iach a werthfawrogir gan bobl Cymru. Cefnogir y Strategaeth gan gyfres o gynlluniau gweithredu a map o'r meysydd polisi sy'n pennu'r camau allweddol a gymerir er mwyn cyrraedd canlyniadau'r Strategaeth. Mae nifer o'r canlyniadau allweddol yn berthnasol i gwmpas yr GCD.

9. Ynglŷn â rheoli gwastraff, mae'r Strategaeth Amgylcheddol yn pwysleisio y bydd sicrhau patrwm mwy cynaliadwy o ddefnyddio adnoddau a chynhyrchu yn helpu i leihau effaith gweithgarwch economaidd ar yr amgylchedd. Yn y Strategaeth, nodir amrediad o ganlyniadau y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio tuag atynt, gan gynnwys lleihau maint y gwastraff a gynhyrchir yng Nghymru; derbyn yr egwyddor o 'leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu' ledled llywodraeth, busnes, diwydiant a bywyd domestig; sicrhau y sefydlir cyfleusterau priodol i reoli gwastraff, er mwyn lleihau tirlenwi i'r eithaf; ac annog y sector busnes i ddylunio cynhyrchion sy'n defnyddio llai o adnoddau ac yn achosi gwastraff minimol.

10. Nod arall y Strategaeth yw lleihau llygredd i'r eithaf, ynghyd â'i effaith ar yr amgylchedd ac ar iechyd. Mae'r canlyniadau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio tuag atynt yn cynnwys lleihau llygredd aer, a thrwy hynny estyn disgwyliad oes; a chynnal a gwella ansawdd dŵr daear, afonydd, llynnoedd a'r dyfroedd arfordirol.

11. Ynglŷn ag ansawdd yr amgylchedd yn lleol, mae'r Strategaeth Amgylcheddol yn datgan mai nod Llywodraeth Cynulliad Cymru yw sicrhau mannau lle nad effeithir yn andwyol ar ansawdd bywyd gan niwsansau amgylcheddol. Un canlyniad penodol yn y maes hwn fydd lleihau niwsansau amgylcheddol megis sbwriel, tipio, graffiti, baw cŵn,

gosod posteri yn anghyfreithlon, llygredd sŵn a llygredd golau.

12. Ychwanegiad at ddull strategol y Strategaeth Amgylcheddol yw fframwaith hirdymor Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer rheoli gwastraff ac effeithlonrwydd adnoddau, a bennir yn y ddogfen 'Yn Gall gyda Gwastraff – Strategaeth Wastraff Genedlaethol Cymru' (2002). Mae'r Strategaeth Wastraff Genedlaethol yn rhoi manylion pellach am y modd y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydweithio mewn partneriaeth ag eraill i symud Cymru o'i gorddibyniaeth ar dirlenwi i gyfeiriad dull mwy cynaliadwy o reoli gwastraff drwy gynhyrchu llai ohono a'i reoli yn fwy effeithiol, ailgylchu a chompostio llawer rhagor, a gwaredu yn ddiogel pa bynnag wastraff na ellir ei ailgylchu neu ei gompostio. Adolygir 'Yn Gall gyda Gwastraff' ar hyn o bryd, a disgwylir cyhoeddi Strategaeth Wastraff ddiwygiedig ar gyfer ymgynghori yn ystod hanner cyntaf 2009.

*Y Fframwaith Deddfwriaethol Cyfredol*

13. Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru bwerau gweithredol sylweddol a chymhwysedd is-ddeddfwriaethol ar gyfer amrediad eang o ddeddfwriaeth mewn perthynas â'r amgylchedd. Mewn cysylltiad â chwmpas y pwerau yn y Gorchymyn, mae gan Weinidogion Cymru bwerau eang iawn a ddatganolwyd o nifer o ffynonellau. Ffynonellau allweddol y pwerau hyn yw'r canlynol:

- Deddf Rheoli Llygredd 1974 a Deddf Rheoli Llygredd (Diwygio) 1989

Mae'r Deddfau hyn yn darparu pwerau ynglŷn â chludo a gwaredu gwastraff, llygredd dŵr, llygredd sŵn, llygredd atmosfferig ac iechyd y cyhoedd.

- Deddf Bwyd a Diogelu'r Amgylchedd 1985

Mae'r Ddeddf hon yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru reoli dympio gwastraff yn y môr tiriogaethol cyfagos i Gymru.

- Deddfau Llywodraeth Leol 1988 a 1999

Mae'r deddfau hyn yn darparu pwerau ychwanegol mewn cysylltiad â gosod targedau statudol ar gyfer ailgylchu a chompostio.

- Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990

Mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau eang i Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â rheolaeth integredig ar lygredd a rheolaeth integredig ar lygredd aer; niwsansau statudol ac aer glân; tir halogedig; gwastraff; a sbwriel.

- Deddf y Diwydiant Dŵr a Deddf Adnoddau Dŵr 1991

O dan y Deddfau hyn mae swyddogaethau gan Weinidogion o ran rheoleiddio ansawdd ac iachusrwydd dŵr, ac atal a rheoli llygredd dŵr, mewn perthynas â Chymru.

- Deddf Aer Glân 1993

Mae'r Ddeddf hon yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â rhai mathau o allyriadau i'r aer.

- Deddf yr Amgylchedd 1995

Mae'r Ddeddf yn darparu pwerau i Weinidogion Cymru i roi cyfarwyddiadau a chanllawiau i Asiantaeth yr Amgylchedd mewn cysylltiad â'r modd y mae'r Asiantaeth yn cyflawni ei swyddogaethau eang, sy'n cynnwys rheoli llygredd, gwastraff a chyfrannu at gyflawni datblygu cynaliadwy.

- Deddf Atal a Rheoli Llygredd 1999

Mae hwn yn ddeddfiad allweddol sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth ar gyfer rheoleiddio unrhyw fath o weithgareddau sy'n llygru, neu atal neu reoli allyriadau a allai achosi unrhyw lygru.

- Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003

Mae’r Ddeddf hon yn darparu pwerau mewn cysylltiad â graffiti.

- Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005

Ynglŷn ag ansawdd yr amgylchedd lleol, mae'r Ddeddf hon yn cynnwys pwerau gweithredol allweddol, sef pwerau mewn perthynas â sŵn a Chynlluniau Rheoli Gwastraff Safle.

- Cyfraith Ewropeaidd

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau sylweddol hefyd o dan Orchmynion Dynodi, sy'n eu dynodi at ddibenion cyflawni cyfraith Ewropeaidd. Y canlynol yw rhai'r Dynodiadau allweddol:

- Gorchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Dynodi) (Rhif 3) 2000 (OS 2000/2812 - Dynodiad mewn cysylltiad ag ansawdd aer )
- Gorchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Dynodi) (Rhif 2) 2003 (OS 2003/1246 - Dynodiad mewn cysylltiad â dŵr gwastraff trefol a diwydiannol);

- Gorchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Dynodi) (Rhif 4) 2003 (OS 2003/2901- Dynodiad mewn cysylltiad ag adnoddau dŵr)
- Gorchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Dynodi) (Rhif 7) 2004 (OS 2004/3328 - Dynodiad mewn cysylltiad ag ansawdd dŵr);
- Gorchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Dynodi) 2004 (OS 2004/706 - Dynodiad mewn cysylltiad â sŵn amgylcheddol);
- Gorchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Dynodi) 2005 (OS 2005/850 - Dynodiad ar gyfer mesurau mewn cysylltiad ag atal, lleihau a dileu llygredd a achosir gan wastraff a rheoli deunydd pecynnu a gwastraff deunydd pecynnu); a
- Gorchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Dynodi) 2007 (OS 2007/193 - Dynodiad mewn cysylltiad â halogi tir);

14. Mae'r paragraffau uchod yn disgrifio rhai o'r pwerau gweithredol allweddol sydd gan Weinidogion Cymru eisoes mewn cysylltiad â'r amgylchedd. Fodd bynnag, mae pwerau Gweinidogion Cymru yn y meysydd pwnc hyn yn eang, ac nid yw'r rhestr uchod, ar unrhyw gyfrif, yn hollgynhwysol.

*Gweithredu Cyfredol*

15. Yn ychwanegol at y ddeddfwriaeth, cymerir amrediad o gamau gweithredol. Mae llawer o'r gweithredu allweddol mewn perthynas â rheoli gwastraff domestig, masnachol a diwydiannol yng Nghymru yn codi o dargedau a osodwyd yn y Strategaeth 'Yn Gall gyda Gwastraff'. Er enghraifft, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyllido ailgylchu gwastraff domestig gan awdurdodau lleol drwy gyfrwng y Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy a'r Gronfa Mynediad i Gyfalaf Rhanbarthol. Y gyllideb ar gyfer hyn yn 2009/10 yw £67m. Mae cyllid ar gael hefyd (£3.5m yn 2009/10) ar gyfer cystadlaethau cyfalaf i ddarparu seilwaith o bwysigrwydd strategol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyllido nifer o ddarparwyr gwasanaeth sy'n darparu cyngor a chymorth amrywiol i'r cyhoedd yn gyffredinol, i fusnesau, i'r sector cyhoeddus ac i'r sector cymunedol. Ymhlith y rhain mae asiantaethau megis Envirowise, Rhaglen Gweithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau (WRAP), Yn Gall gyda Gwastraff, a Cylch. Mae datblygu Cynlluniau Sector yn rhan o'r adolygiad cyfredol o'r Strategaeth 'Yn Gall gyda Gwastraff', ac yn golygu cydweithio'n glòs â sectorau allweddol er mwyn gyrru ymlaen ag amcanion y Strategaeth Wastraff.

16. Mewn perthynas â llygredd, mae, bu Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydweithio mewn partneriaeth â DEFRA ac Asiantaeth yr Amgylchedd i yrru ymlaen 'r Rhaglen Trwyddedu Amgylcheddol (RhTA). Nod RhTA yw lleihau'r baich rheoleiddio diwydiannol ar fusnesau a reoleiddir ac ar Asiantaeth yr Amgylchedd, heb leihau effeithiolrwydd rheoleiddio iechyd dynol na'r amgylchedd. Ynglŷn ag ansawdd dŵr amgylcheddol, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi canllawiau manwl i Asiantaeth yr

Amgylchedd er mwyn cydymffurfio â nifer o Gyfarwyddebau'r Gymuned Ewropeaidd gan gynnwys, yn fwyaf nodedig, y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Mae'r gweithredoedd allweddol ar gyfer gwella ansawdd dŵr i'w cael yn Strategaeth Amgylcheddol Cymru, sef yn benodol, gweithredu i gael gwell dealltwriaeth o lygredd gwasgaredig, ac i leihau a rheoli llygredd gwasgaredig. Asiantaeth yr Amgylchedd sy'n ymgymryd â llawer o'r gwaith rheoleiddio mewn perthynas â rheolaethau llygredd a rheoli gwastraff, a darparwyd grant o fwy na £23m i'r Asiantaeth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2008-09. Mae pŵer cyfarwyddo cyffredinol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru dros Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru.

17. Ynghylch materion sy’n ymwneud ag ansawdd yr amgylchedd lleol, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ganllawiau manwl yn 2008 ar y pwerau a gynhwysir yn Neddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005, er mwyn cynorthwyo cynghorau cymuned a thref i benderfynu a ddylent ddefnyddio'r pwerau o dan y Ddeddf. Mae'r rhain yn cynnwys pwerau i gynghorau cymuned a thref gymryd camau cyfreithiol yn erbyn rhai sy'n taflu sbwriel, yn gosod posteri yn anghyfreithlon neu'n creu graffiti yn eu hardaloedd. Lansiwyd y fenter 'Trefi Taclus', un o ymrwymiadau *Cymru'n Un* yn Ebrill 2008, a chefnogir y fenter gan gyllid blynyddol o £4 miliwn. Mae cyllid ar gael i awdurdodau lleol os oes tystiolaeth eu bod wedi cydweithio â chymunedau lleol, sefydliadau gwirfoddol a rhanddeiliaid allweddol eraill i wella ansawdd eu hamgylchedd lleol. Nod y prosiect yw galluogi pobl Cymru i gymryd cyfrifoldeb am ansawdd eu hamgylchedd lleol eu hunain, fel y gallant gyfrannu dros y tair blynedd nesaf at wneud Cymru yn lân, diogel a thaclus.

18. Mae'r gweithgareddau hyn wedi cyfrannu at y cynnydd eglur a wnaed gan Lywodraeth Cynulliad Cymru tuag at y nod cyffredinol o ddatblygu cynaliadwy. Yn yr adroddiad diweddaraf gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar y Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy, a gyhoeddwyd yn Awst 2008, dangosir gwelliannau eglur mewn 15 o'r 39 maes a fesurwyd, gan gynnwys gwelliannau mewn dangosyddion perthynol i'r amgylchedd megis cadwraeth bioamrywiaeth (statws rhywogaethau'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth); ansawdd aer trefol a gwledig; ansawdd afonydd; gwastraff (deilliannau gwastraff fesul dull gwaredu); gwastraff (a ailgylchwyd neu a gompostiwyd); dŵr cynaliadwy ac allyriadau nwyon tŷ gwydr. Mae'r bwletin ‘Cyflwr yr Amgylchedd ’ a gyhoeddwyd hefyd yn 2008, yn crynhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y dangosyddion sy'n monitro cynnydd gyferbyn â'r Strategaeth Amgylcheddol. Roedd y bwletin yn tanlinellu bod mwy na hanner y dangosyddion a ddiffiniwyd lle'r oedd gwybodaeth ar gael yn dangos gwelliant, gan gynnwys dangosyddion ynglŷn â rheoli gwastraff a llygredd. Yn achos rheoli gwastraff datgelwyd gwelliant mewn dangosyddion megis cyfran y gwastraff trefol, diwydiannol a masnachol a ailgylchwyd neu a gompostiwyd; cyfran y gwastraff trefol, diwydiannol a masnachol a anfonwyd i dirlenwi; a'r gyfran o'r gwastraff

pecynnu a adferwyd yn y DU. O ran peryglon amgylcheddol, roedd y dangosyddion wedi gwella ar gyfer ansawdd dŵr ymdrochi; ar gyfer cymeriant cemegion organig parhaus a metelau drwy'r cymeriant bwyd, o gymharu â chanllawiau Sefydliad Iechyd y Byd; ac ar gyfer tueddiadau yn y gollyngiadau ymbelydrol o ffynonellau mawr yng Nghymru.

*Yr angen am newid*

19. Y prif gymhelliad dros geisio cymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â'r meysydd polisi hyn yw y bydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i gynnig deddfwriaeth i'r Cynulliad a fydd yn cefnogi dull mwy holistig o ddatblygu a gwella polisïau mewn maes polisi sydd wedi ei ddatganoli ers cyfnod hir. Fel y nodwyd uchod ym mharagraffau 13-15, mae gan Weinidogion Cymru bwerau gweithredol eang eisoes mewn perthynas â gwastraff, llygredd ac ansawdd yr amgylchedd lleol. Fodd bynnag, er bod y pwerau sydd gan Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau yn eang, cyfyngir hwy i geisio sicrhau newid rheoliadol mewn dull tameidiog ledled y maes polisi hwn. Bydd cymhwysedd deddfwriaethol yn galluogi Gweinidogion Cymru i fabwysiadu dull mwy holistig o ymateb i heriau critigol mewn perthynas â'r amgylchedd, a chynnig deddfwriaeth fwy strategol i'w hystyried gan y Cynulliad.

20. Mae cysylltiad agos rhwng yr angen hwn am ddull mwy holistig a chydlynol o ddeddfu a'r ffaith bod gan Lywodraeth Cynulliad Cymru agenda benodol ei hunan, sydd wedi ei diffinio'n eglur, mewn perthynas pholisi amgylcheddol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymgymryd ag amrediad eang o weithgareddau a mentrau sy'n cefnogi gwelliannau amgylcheddol, ac y mae creu amgylchedd cynaliadwy yn un o nodau allweddol y Rhaglen Llywodraethu *Cymru'n Un*. Yn benodol, mae *Cymru'n Un* yn rhwymo Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddefnyddio deddfwriaeth i gryfhau'r targedau ailgylchu, a darparu cefnogaeth well a mwy cydlynol ar gyfer rheoli gwastraff. Fel y nodwyd ym mharagraffau 6-12, cefnogir yr ymrwymiadau polisi eang a bennir yn *Cymru'n Un* gan ddogfennau strategol allweddol Llywodraeth y Cynulliad yn y maes polisi hwn, sef y Cynllun Datblygu Cynaliadwy, y Strategaeth Amgylcheddol a'r Strategaeth Wastraff. Byddai cymhwysedd deddfwriaethol yn galluogi Gweinidogion Cymru i gynnig deddfwriaeth strategol gydlynol, yn unol ag agenda polisi ddiffiniedig Llywodraeth Cynulliad Cymru.

21. Bydd cymhwysedd deddfwriaethol hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i gynnig deddfwriaeth i'r Cynulliad i ymateb i heriau newydd ac arwyddocaol ynglŷn â'r amgylchedd. Un her allweddol, a phrif ddangosydd ar gyfer dyheadau datblygu cynaliadwy Llywodraeth Cynulliad Cymru, yw lleihau ôl troed ecolegol Cymru. Mae'r ôl troed ecolegol yn ddangosydd o gyfanswm y baich amgylcheddol a osodir ar y blaned, ac yn cynrychioli'r arwynebedd o dir sydd ei angen i ddarparu'n deunyddiau crai, ynni a bwyd yn ogystal

ag amsugno'r gwastraff a'r llygredd a achosir – yn yr achos hwn, gan boblogaeth Cymru. Cyfrifwyd ôl troed Cymru am y tro cyntaf gan ddefnyddio data 2001, a Chymru yw'r wlad gyntaf i ailgyfrifo ôl ei throed gan ddefnyddio data 2003. Yn ôl yr adroddiad diweddaraf, mae ôl troed Cymru wedi cynyddu yn ôl cyfradd gyfartalog o 1.5% y flwyddyn rhwng 1990 a 2003 – tuedd a ddyblygwyd mewn rhannau eraill o'r DU. Er bod un adroddiad wedi cadarnhau mai Cymru sydd â'r ôl troed lleiaf o blith pedair gwlad y DU, mae'n parhau'n anghynaliadwy o uchel, ac y mae angen gwneud rhagor.

22. Sialens bwysig arall i Lywodraeth Cynulliad Cymru ac ymrwymiad a wnaed yn y Rhaglen Llywodraethu *Cymru'n Un* yw gweithredu model dinesydd-ganolog ar gyfer gwella'r gwasanaethau cyhoeddus, gan gyfeirio at Adolygiad Beecham o'r Gwasanaethau a Ddarperir yn Lleol(2006). Mae Llywodraeth Cynullid Cymru wedi sefydlu rhaglen feiddgar ar gyfer cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus effeithlon, effeithiol a dinesydd-ganolog. Bydd sicrhau gwell rheolaeth ar wastraff, gwella safonau amgylcheddol yn lleol, a diogelu'r amgylchedd ac iechyd dynol rhag llygryddion yn elfennau allweddol mewn gwella ansawdd y gwasanaethau cyhoeddus i ddinasyddion Cymru.

23. Bydd cymhwysedd deddfwriaethol yn galluogi Gweinidogion Cymru i gynnig deddfwriaeth i'r Cynulliad a fydd yn ymateb yn effeithiol i'r heriau hyn ac eraill fel y deuant i'r amlwg, a gwireddu dyhead Llywodraeth Cynulliad Cymru am amgylchedd gwirioneddol gynaliadwy a darpariaeth o wasanaethau cyhoeddus rhagorol. Mae'n bwysig bod yr holl drosolion polisi, gan gynnwys cymhwysedd deddfwriaethol ar gael, fel y gellir ymateb yn holistig i'r heriau amgylcheddol sylweddol, a gwella’r amgylchedd lleol i'r bobl ym mhob rhan o Gymru.

24. Bydd darparu cymhwysedd deddfwriaethol ar y Cynulliad mewn perthynas â'r meysydd polisi penodedig yn galluogi Llywodraeth Cynulliad Cymru i roi cynigion cydlynol a holistig gerbron ar gyfer deddfwriaeth, ar ffurf Mesurau a fydd yn seiliedig ar flaenoriaethau ac amserlenni Cymreig. Mater i Weinidogion Cymru fydd union gynnwys y Mesurau hyn, ond yn y tymor byr a chanolig bydd blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn debygol o ganolbwyntio ar fesurau i fynd i'r afael â rheoli gwastraff a gwella ansawdd yr amgylchedd yn lleol. Bydd y cynigion polisi yn destun ymgynghori, ac unrhyw fesurau yn ddarostyngedig i graffu arnynt a'u cymeradwyo gan y Cynulliad. Bydd Mesurau'r Cynulliad yn ychwanegiad at becyn ehangach o weithredoedd a fydd yn ein cynorthwyo i symud tuag at wireddu'r dyheadau a amlinellir yn y Memorandwm hwn.

**Cwmpas**

25. Y dull a ddilynir mewn cysylltiad â'r GCD hwn yw y dylai cymhwysedd deddfwriaethol gadw at ffiniau cyfredol y materion sydd wedi eu datganoli neu heb eu datganoli.

26. Cynigir bod tri Mater yn cael eu mewnosod ym Maes 6: *amgylchedd* o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, er mwyn galluogi'r Cynulliad i ddeddfu ar y pynciau hyn drwy Fesurau Cynulliad.

*Mater 6.1 – Gwastraff*

27. Bydd Mater 6.1 yn darparu cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad mewn cysylltiad ag atal, lleihau, casglu, rheoli, trin neu waredu gwastraff ar dir mawr Cymru. Mae'n darparu cymhwysedd hefyd mewn cysylltiad â gwaredu gwastraff yn y môr o amgylch Cymru, pan fo'r gwastraff hwnnw wedi ei gasglu, ei reoli neu ei drin ar y tir. Bydd hyn yn galluogi'r Cynulliad i ddeddfu er mwyn cynyddu ailgylchu a gwella rheoli gwastraff yn gynaliadwy yng Nghymru.

*Mater 6.2 – Llygredd*

28. Bydd Mater 6.2 yn darparu cymhwysedd deddfwriaethol ar gyfer diogelu neu wella'r amgylchedd mewn cysylltiad â llygredd. Bydd hyn yn galluogi'r Cynulliad i basio Mesurau i gryfhau'r rheolaethau ar lygredd mewn ffordd holistig.

*Mater 6.3 – Niwsans*

29. Bydd Mater 6.3 yn darparu cymhwysedd deddfwriaethol ar gyfer diogelu neu wella'r amgylchedd mewn perthynas â niwsans Bydd hyn yn galluogi'r Cynulliad i basio Mesurau i roi sylw i wahanol fathau o niwsans a gwella ansawdd yr amgylchedd yn lleol. Diffinnir "Niwsansau", at ddibenion y cymhwysedd, fel gweithredoedd neu anweithredoedd sy'n effeithio ar unrhyw le, neu sefyllfaoedd mewn unrhyw le, a allai amharu ar neu ymyrryd ag amwynder yr amgylchedd neu unrhyw ddefnydd cyfreithlon o'r amgylchedd. Nid yw'r diffiniad o "Niwsans", fodd bynnag, yn cynnwys gweithred, anweithred neu sefyllfa sy'n cynnwys llygru.

30. Yn gryno, prif bwrpas yr GCD hwn yw galluogi'r Cynulliad i basio Mesurau o dan Ran 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i wella amgylchedd Cymru.

*Eithriadau*

31. Fel y dywedir uchod, mae'r cymhwysedd deddfwriaethol a ddarperir gan yr GCD hwn, yn adlewyrchu yn fras y pwerau gweithredol presennol sydd gan Weinidogion Cymru. Mae'r GCD felly yn cynnwys nifer o eithriadau o'r cymhwysedd deddfwriaethol er mwyn, yn gyffredinol, adlewyrchu pynciau sydd â wnelont â gwastraff neu ddiogelu'r amgylchedd, ond nad oes gan Weinidogion Cymru swyddogaethau o bwys mewn cysylltiad â hwy. Mae pennu eithriadau yn angenrheidiol pan fo Mater penodol mor eang fel y gellid ei ddehongli i gynnwys rhywbeth na fwriedid ei gynnwys yn y cymhwysedd a roddir. Drwy'r eithriadau, felly, ceisir darparu eglurder ynglŷn ag ehangder y cymhwysedd a gaffaelir gan y Cynulliad yn yr GCD hwn. Rhoddir crynodeb o'r eithriadau isod.

*Eithriadau o'r holl Faterion*

32. Mae rheoleiddio datgomisiynu gosodiadau ynni ar y môr a'r seilwaith sy'n gysylltiedig â hynny wedi ei eithrio o bob Mater. Mae gosodiadau petrolewm, ynni adnewyddadwy a storio carbon ar y môr yn ddarostyngedig eisoes i gyfundrefnau datgomisiynu a sefydlwyd gan ddeddfwriaeth y DU - Deddf Petrolewm1998, Deddf Ynni 2004 a Deddf Ynni 2008. Pennir terfyn daearyddol yr eithriad hwn ym mharagraff 54.

33. Mae'r darpariaethau a wneir gan reoliadau iechyd a diogelwch hefyd wedi eu heithrio o bob Mater. Ar hyn o bryd nid oes pwerau gan Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau o'r fath

*Eithriadau o Fater 6.1 (Gwastraff)*

34. Nid yw Mater 6.1 yn cynnwys rheoleiddio darparu gwasanaethau post gan bersonau a drwyddedir gan y Comisiwn Gwasanaethau Post. Mae'r trefniadau rheoleiddio ar gyfer gwasanaethau post wedi eu pennu yn Neddf Gwasanaethau Post 2000.

35. Mae rheoleiddio datgomisiynu ffrwydron, mewn cysylltiad â gweithgareddau milwrol, hefyd wedi ei eithrio o'r Mater hwn. Mae datgomisiynu ffrwydron wedi ei eithrio o'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff (Cyfarwyddeb 2006/12/EC) ac y mae pwerau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â gwastraff o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 yn adlewyrchu'r eithriad hwnnw.

36. Mae rheoleiddio deunydd ymbelydrol mewn mangreoedd milwrol wedi ei eithrio gwmpas y Mater hwn, a thrwy hynny yn adlewyrchu'r darpariaethau yn Neddf Sylweddau Ymbelydrol 1993.

37. Mae rheoleiddio Dal a Storio Carbon (DSC) ar raddfa fawr wedi ei eithrio o'r Mater. O dan Ddeddf Ynni 2008, ar gyfer gwaredu $CO_2$ yn y môr tiriogaethol yn gyfagos i Gymru mae'n ofynnol cael trwydded gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Nid yw'r trefniadau rheoleiddio ar gyfer yr amrediad llawn o weithgareddau DSC eto wedi eu diffinio.

38. Mae rheoleiddio rhai gweithgareddau yn y môr tiriogaethol cyfagos i Gymru hefyd wedi eu heithrio o Fater 6.1. Bydd y Mesur Mynediad i'r Môr a'r Arfordir yn rhoi i Weinidogion Cymru amrediad o bwerau trwyddedu a rheoleiddio mewn perthynas â'r môr tiriogaethol cyfagos i Gymru.

*Eithriadau o Fater 6.2 (Llygredd) yn unig*

39. Mae rheoleiddio chwilio am, ac ymelwa ar, olew a nwy wedi ei eithrio o'r cymhwysedd mewn perthynas â'r 9 milltir pellaf oddi wrth y tir o'r môr tiriogaethol cyfagos i Gymru. Bydd cymhwysedd gan y Cynulliad mewn cysylltiad â'r Mater hwn mewn ardal sy'n estyn allan i'r môr am 3 milltir o'r marc distyll, gan adlewyrchu drwy hynny y pwerau sydd gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Atal a Rheoli Llygredd 1999. Pennir terfyn daearyddol yr eithriad hwn hefyd ym mharagraff 55.

40. Nid yw Mater 6.2 yn cynnwys nifer o bynciau sy’n ymwneud â thanwydd cludiant. Y cyntaf yw rheoleiddio cyfansoddiad a chynnwys y tanwydd a ddefnyddir mewn moddau trafnidiaeth, mewn peiriannau symudol a ddefnyddir oddi ar y ffyrdd, neu mewn tractorau amaethyddol neu goedwigol. Eithriwyd o’r cymhwysedd hefyd y rhwymedigaethau sydd ar bersonau sy’n cyflenwi tanwydd cludiant mewn mannau yn y Deyrnas Unedig, neu ar gyfer ei gyflenwi i fannau o’r fath, i ddangos tystiolaeth o’r cyflenwad o danwydd cludiant adnewyddadwy. O dan y rhwymedigaeth gyfredol ynghylch tanwydd cludiant adnewyddadwy, mae hyn yn golygu rhoi tystiolaeth o’r cyfaint o danwydd adnewyddadwy a gyflenwir. O ystyried y bydd trafnidiaeth yn debygol o gael ei bweru gan “ynni” adnewyddadwy yn hytrach na “thanwydd” adnewyddadwy yn unig, mae’r Gorchymyn hefyd yn allgáu o gymhwysedd gwneud darpariaethau ynglŷn â’r gyfran o ynni adnewyddadwy a ddefnyddir gan drafnidiaeth, gan gynnwys pennu gofynion cynaliadwyedd mewn perthynas â chynhyrchion ynni adnewyddadwy. Yn olaf, mae darparu cymorth ariannol mewn perthynas â chynhyrchu neu ddefnyddio ynni adnewyddadwy i’w ddefnyddio mewn trafnidiaeth, gan gynnwys pennu gofynion cynaliadwyedd fel amodau ar gael cymorth ariannol, wedi ei eithrio. Mae cynnwys a chyfansoddiad tanwydd cludiant, a’r rhwymedigaeth tanwydd cludiant adnewyddadwy yn feysydd polisi nas datganolwyd.

41. Mae rhai eithriadau sy'n gymwys i’r ddau Fater, 6.2 yn ogystal â 6.3. Rhestrir y rhain ym mharagraffau 48-49 isod.

*Eithriadau o Fater 6.3 (Niwsans) yn unig*

42. Nid yw’r cymhwysedd o dan Fater 6.3 yn cynnwys gallu i osod atebolrwydd troseddol neu sifil am niwsansau sy'n tarddu o weithgareddau neu o seilwaith ynni, pan fo awdurdod statudol ar gyfer pa bynnag weithred, anweithred neu sefyllfa sy'n cyfansoddi'r niwsans hwnnw. Fodd bynnag, pan fo pŵer gan Weinidogion Cymru i osod atebolrwydd yn yr amgylchiadau, bydd gan y Cynulliad hefyd gymhwysedd deddfwriaethol.

43. Yn yr un modd, eithrir o'r cymhwysedd amddiffyniadau neu fathau eraill o esemptiad rhag atebolrwydd (troseddol neu sifil) am niwsans, pan fo'r amddiffyniadau neu esemptiadau hynny wedi eu creu drwy statud a'r niwsans dan sylw yn ymwneud â gweithgareddau neu seilwaith ynni. Mewn geiriau eraill, ni fydd gallu gan y Cynulliad i wneud rhywun yn atebol am niwsans sy'n tarddu o weithgareddau ynni, pan na fyddai'r person hwnnw yn atebol ar hyn o bryd. Yma eto, ni fydd yr eithriad hwn o'r cymhwysedd deddfwriaethol yn gymwys pan fo pŵer gan Weinidogion Cymru i ddiddymu'r amddiffyniad sydd dan sylw .

44. Mae rheoleiddio allyriad mwg, golau artiffisial a sŵn o sefydliadau milwrol wedi ei eithrio o Fater 6.3. Mae mwg, golau a sŵn o’r sefydliadau hynny wedi eu heithrio o’r darpariaethau o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 mewn cysylltiad â niwsansau statudol.

45. Mae rheoleiddio cynhyrchu trydan mewn gorsaf gynhyrchu wedi ei eithrio o gymhwysedd deddfwriaethol mewn cysylltiad â'r Mater hwn, os yw caniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol neu orchymyn yn rhoi caniatâd datblygu o dan Ddeddf Cynllunio 2008 yn ofynnol ar gyfer adeiladu, estyn neu weithredu yr orsaf gynhyrchu dan sylw. Mae rheoleiddio trawsyrru, dosbarthu a chyflenwi trydan hefyd y tu allan i'r cymhwysedd deddfwriaethol. Ac y mae rheoleiddio gweithgareddau olew a nwy, ac eithrio gweithgareddau a gyflawnir gan unigolyn at ei ddibenion domestig, wedi eu heithrio o’r cymhwysedd mewn cysylltiad â'r Mater penodol hwn. Mae'r rhain yn feysydd polisi nas datganolwyd.

46. Mae rheoleiddio chwilio am, ac elwa ar olew a nwy wedi ei eithrio o Fater 6.3 mewn perthynas â'r môr tiriogaethol sy'n gyfagos i Gymru (12 milltir forol allan o'r marc distyll). Pennir terfyn daearyddol yr eithriad hwn hefyd ym mharagraff 55.

47. Mae rheoleiddio cyfathrebu a rhwydweithiau electronig y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol mewn cysylltiad â'r Mater penodol hwn. Mae telegyfathrebu yn faes polisi nad yw wedi ei ddatganoli.

*Eithriadau o Faterion 6.2 a 6.3*

48. Mae rheoleiddio’r defnydd amgaeedig o organeddau a addaswyd yn enetig (GMOau) wedi ei eithrio o’r ddau Fater. Mae hyn yn adlewyrchu’r ffaith nad oes gan Weinidogion Cymru bwerau gweithredol ynglŷn â hyn o dan Ran VI o Ddeddf Diogelu’r Amgylchedd 1990 er bod pwerau ganddynt ynglŷn ag agweddau eraill ar GMOau.

49. Mae’r gyfundrefn drwyddedu a sefydlwyd o dan Ran 4 o'r Mesur Mynediad i'r Môr a'r Arfordir wedi ei eithrio o gymhwysedd deddfwriaethol. Bydd y Mesur Mynediad i'r Môr a'r Arfordir yn rhoi i Weinidogion Cymru amrediad o bwerau trwyddedu a rheoleiddio mewn perthynas â'r môr tiriogaethol cyfagos i Gymru.

*Eithriadau ym Mharagraff A1 o Ran 2 of Atodlen 5 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*

50. Yn fuan, os cymeradwyir ef gan y Cynulliad a chan y Senedd, bydd y Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Lles Cymdeithasol) 2009 arfaethedig, y cyfeirir ato yn gyffredin fel yr GCD Gofalwyr, yn newid y ffordd y ffordd y cymhwysir eithriadau o Faterion yn Atodlen 5 i Ddeddf 2006. Byddai'r Gorchymyn arfaethedig yn newid effaith rhai eithriadau o Faterion yn Rhan 1 o Atodlen 5, trwy ddileu'r tabl cyfredol a gwneud rhai eithriadau, sydd i'w rhestru yn Rhan 2 o'r Atodlen, yn gymwys i'r holl Faterion. Byddai Rhan 2 o Atodlen 5 yn cael ei hailenwi “Exceptions to Matters and General Restrictions”. Byddai'r eithriadau sydd i'w rhestru ym mharagraff A1 o'r Rhan honno yn cael eu trefnu yn Feysydd, yn yr un modd â Materion. Byddai adran 94 o Ddeddf 2006 hefyd yn cael ei diwygio i adlewyrchu'r newid hwn. Drwy wneud hyn ceir gwell sicrwydd y cymhwysir yr eithriadau hyn ym mhob achos pan fônt yn berthnasol, a gwneir Atodlen 5 yn fwy eglur ac yn haws i'w deall drwy gymhwyso'r eithriadau hyn i'r holl Faterion a restrir ynddi.

51. Mae'r GCD Gofalwyr arfaethedig ar hyn o bryd yn destun yn destun craffu cyn deddfu, yn y Senedd ac yn y Cynulliad.

52. Bydd y Gorchymyn yn ychwanegu nifer o eithriadau at baragraff A1 o Ran 2 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Bydd adran 94 o Ddeddf 2006, fel y'i diwygir gan yr GCD Gofalwyr, yn gwneud yn eglur na fydd darpariaeth mewn Mesur Cynulliad o fewn cymhwysedd os yw'n dod o fewn unrhyw un o'r eithriadau a restrir yn y paragraff hwnnw. Rhestrir isod yr eithriadau newydd sydd i'w hychwanegu gan y Gorchymyn hwn.

*Datblygu Economaidd (Maes 5)*

- Mae cynhyrchu trydan o orsaf gynhyrchu, pan fo'n ofynnol cael caniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol, neu awdurdod gorchymyn sy'n rhoi caniatâd datblygu o dan Ddeddf Cynllunio 2008, ar gyfer adeiladu, estyn neu weithredu yr orsaf gynhyrchu dan sylw, wedi ei eithrio o'r holl Faterion.

- Mae trawsyrru, dosbarthu a chyflenwi trydan hefyd wedi eu heithrio o'r holl Faterion.

- Mae cadwraeth ynni, ac eithrio annog effeithlonrwydd ynni rywfodd heblaw drwy wahardd neu reoleiddio, wedi ei heithrio o'r holl Faterion.

- Mae ynni niwclear a gosodiadau niwclear, gan gynnwys diogelwch niwclear ac atebolrwydd am ddigwyddiadau niwclear, wedi eu heithrio o'r holl Faterion. Nid yw'r eithriad hwn yn cynnwys darpariaethau mewn Mesur Cynulliad sy'n gysylltiedig â gwaredu gwastraff ymbelydrol lefel isel iawn o Safleoedd Trwyddedig Niwclear.

*Priffyrdd a Thrafnidiaeth (Maes 10)*

- Mae gwasanaethau cludo nwyddau ar y ffyrdd, gan gynnwys trwyddedu gweithredu cerbydau nwyddau, wedi eu heithrio o'r holl Faterion. Nid yw'r eithriad hwn yn cynnwys rheoleiddio'r modd y defnyddir cerbydau sy'n cludo anifeiliaid, at ddibenion diogelu iechyd pobl, anifeiliaid, pysgod neu blanhigion neu ddiogelu'r amgylchedd.

- Mae rheoleiddio defnyddio cerbydau perthnasol ar ffyrdd, adeiladu a defnyddio cerbydau perthnasol, a'r amodau y caniateir defnyddio cerbydau perthnasol odanynt yn y modd hwnnw, wedi eu heithrio o'r holl Faterion. Nid yw'r eithriad hwn yn cynnwys rheoleiddio cerbydau perthnasol sy'n cludo anifeiliaid, pan fo'r cyfryw reoleiddio at y dibenion o amddiffyn iechyd pobl, anifeiliaid, pysgod neu blanhigion, neu'r amgylchedd.

- Mae hedfan, cludiant awyr, meysydd awyr a meysydd glanio wedi eu heithrio o'r holl Faterion. Mae tri math o ddarpariaeth yn cael eu hepgor o'r eithriad hwn. Yn gyntaf, nid yw'r eithriad yn cynnwys darparu cymorth ariannol i ddarparwyr neu ddarparwyr arfaethedig gwasanaethau cludiant awyr, neu gyfleusterau neu wasanaethau maes awyr. Yn ail, nid yw'r eithriad yn cynnwys strategaethau gan Weinidogion Cymru neu awdurdodau lleol neu awdurdodau cyhoeddus eraill mewn perthynas â darparu gwasanaethau awyr. Yn drydydd, nid yw'r eithriad yn cynnwys rheoleiddio defnyddio awyrennau sy'n cludo anifeiliaid, at y diben o ddiogelu iechyd pobl, anifeiliaid, pysgod neu

blanhigion (ac eithrio iechyd pobl ar awyren) neu ddiogelu'r amgylchedd.

- Mae morgludiant wedi ei eithrio o'r holl Faterion. Mae dau fath o ddarpariaeth yn cael eu hepgor o'r eithriad hwn. Yn gyntaf, nid yw'r eithriad yn cynnwys darparu cymorth ariannol ar gyfer gwasanaethau morgludiant i Gymru, o Gymru neu o fewn Cymru. Yn ail, nid yw'r eithriad yn cynnwys rheoliadau at y diben o ddiogelu iechyd pobl, anifeiliaid, pysgod neu blanhigion (ac eithrio iechyd pobl ar longau) neu ddiogelu'r amgylchedd.

- Mae harbwrau, dociau, pierau a llithrfeydd cychod wedi eu heithrio o'r holl Faterion. Mae dau fath o ddarpariaeth yn cael eu hepgor o'r eithriad hwn. Yn gyntaf, nid yw'r eithriad yn cynnwys yr harbwrau, dociau, pierau a llithrfeydd cychod a ddefnyddir gan, neu sy'n ofynnol ar gyfer, yn gyfan gwbl neu'n bennaf, y diwydiant pysgota, neu hamdden neu gysylltu rhwng lleoedd yng Nghymru (neu ar gyfer dau neu ragor o'r dibenion hyn). Yn ail, nid yw'r eithriad yn cynnwys rheoliadau at y dibenion o ddiogelu iechyd pobl, anifeiliaid, pysgod neu blanhigion neu ddiogelu'r amgylchedd.

- Mae cludo nwyddau peryglus, gan gynnwys cludo deunydd ymbelydrol, wedi ei eithrio o'r holl Faterion.

*Amddiffyn rhag Dŵr a Llifogydd (Maes 19)*

- Mae penodi a rheoleiddio unrhyw ymgymerwr dŵr nad yw ei ardal yn gyfan gwbl neu'n bennaf o fewn Cymru wedi eu heithrio o'r holl Faterion.

- Mae trwyddedu a rheoleiddio unrhyw gyflenwr dŵr trwyddedig o fewn ystyr "licensed water supplier" yn Neddf y Diwydiant Dŵr 1991, ac eithrio rheoleiddio mewn perthynas â gweithgareddau trwyddedig sy'n defnyddio system gyflenwi ymgymerwr dŵr y mae ei ardal yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru, wedi eu heithrio o'r holl Faterion.

## Terfynau Daearyddol unrhyw Fesur Cynulliad

53. Mae adran 94 o Ddeddf 2006 yn gwahardd Mesurau Cynulliad rhag cael effaith ac eithrio mewn perthynas â Chymru. Mae'n darparu nad yw darpariaeth mewn Mesur Cynulliad yn gyfraith i'r graddau y mae tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Mae darpariaeth y tu allan i gymhwysedd os yw'n gymwys rywfodd heblaw mewn perthynas â Chymru neu'n rhoi, gosod, addasu neu ddiddymu swyddogaethau sy'n arferadwy rywfodd heblaw mewn perthynas â Chymru (neu'n rhoi pŵer i wneud felly). At y dibenion hyn, mae adran 158 o Ddeddf 2006 yn diffinio “Cymru” fel pe

bai’n ymestyn allan hyd at ffin y môr tiriogaethol ar ochr y môr (12 milltir forol o’r marc distyll). Gwneir eithriadau cyfyngedig ar gyfer rhai mathau o ddarpariaethau ategol, er enghraifft darpariaeth briodol i wneud darpariaethau'r Mesur yn effeithiol, neu ddarpariaeth i alluogi gorfodi darpariaethau eraill y Mesur, neu wneud diwygiadau canlyniadol mewn deddfwriaeth arall.

54. Mae'r cyfyngiad ynglŷn â swyddogaethau nad ydynt mewn cysylltiad â Chymru yn rhwystro'r Cynulliad rhag pasio unrhyw Fesur sy'n rhoi i Weinidogion Cymru, awdurdodau lleol Cymru neu unrhyw awdurdod cyhoeddus arall swyddogaethau mewn cysylltiad â dim ac eithrio Cymru.

55. Yn y Gorchymyn arfaethedig, defnyddir diffiniad o “Gymru” nad yw’n cynnwys y môr tiriogaethol. Mae hyn yn golygu, mewn perthynas â Mater 6.1, y gallai darpariaeth mewn Mesur Cynulliad o dan y cymhwysedd deddfwriaethol a roddir i'r Cynulliad Cenedlaethol gan yr GCD ymestyn i holl ehangdir Cymru hyd at y marc distyll ar lan y môr. Gallai ymestyn ymhellach pe bai'n ymwneud â gwastraff a gasglwyd, a reolwyd neu a driniwyd ar y tir; ac mewn achos o'r fath gallai ymestyn at ffin y môr tiriogaethol ar ochr y môr (sef 12 milltir forol o'r marc distyll). Byddai'r ehangder olaf hwn yn gymwys hefyd i bob Mesur o dan Faterion 6.2 a 6.3. Yr unig eithriad a wneid yn achos darpariaeth o dan y Materion hynny fyddai mewn Mesur Cynulliad ar gyfer rheoleiddio chwilio am, ac elwa ar, olew a nwy, mewn cysylltiad â llygredd. Byddai terfynau daearyddol Mesur Cynulliad o'r fath yn ymestyn am dair milltir i gyfeiriad y môr o'r marc distyll yn y môr tiriogaethol cyfagos i Gymru. Ni fyddai cymhwysedd gan y Cynulliad mewn cysylltiad â llygredd o ganlyniad i chwilio am, ac elwa ar, olew a nwy yn y naw milltir allanol o'r môr tiriogaethol cyfagos i Gymru.

## Swyddogaethau Gweinidogion y Goron

56. Nid yw'r Gorchymyn arfaethedig hwn yn amcanu i addasu na diddymu unrhyw swyddogaeth Gweinidog y Goron. Yn rhinwedd Rhan 2 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006, ni chaiff y Cynulliad, drwy gyfrwng Mesur, newid swyddogaethau Gweinidog y Goron heb ganiatâd yr Ysgrifennydd Gwladol. Ynglŷn ag unrhyw gynigion yn y dyfodol a allai effeithio ar swyddogaethau Gweinidog y Goron, ymgynghorir ag adrannau priodol Llywodraeth y DU a cheisir eu cytundeb.

## Casgliad

57. Am y rhesymau a amlinellir uchod, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnig y dylid estyn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â'r GCD arfaethedig y mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn berthynol iddo

**Jane Davidson**
**Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai**
**27 Ebrill 2009**